



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthuso Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC): Arolwg Tenantiaid

Mae Tîm Polisi Safon Ansawdd Tai Cymru yn Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i gynnal arolwg o farn tenantiaid am Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Nod yr arolwg hwn yw gweld beth yw canfyddiad tenantiaid am y SATC presennol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu Safon newydd. Fel rhan o'r ymchwil hon, bydd y Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn casglu gwybodaeth gan denantiaid drwy arolwg a ddosberthir gan TPAS Cymru a landlordiaid cymdeithasol.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Bydd y Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn dileu data personol cyn ysgrifennu'r adroddiad ac ni fyddant yn rhoi data a all arwain at adnabod unigolion i eraill yn Llywodraeth Cymru oni bai y byddwch yn gofyn inni wneud hynny.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad y gellir ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol rydym yn eu cadw ac o ble y cawn ni'r wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod'.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion cyswllt. Cysylltwyd â chi am un o'r rhesymau isod:

- gofynnwyd i'ch landlord (yr ydych eisoes yn ymgysylltu ag ef) gysylltu â chi i roi gwybod i chi am yr arolwg hwn a rhoi dolen i chi gymryd rhan
- fe'ch gwahoddwyd i gymryd rhan drwy TPAS Cymru fel aelod o'u grŵp Pwls Tenantiaid
- rydych wedi cael mynediad at yr ymchwil drwy wahoddiad naill ai gan eich landlord neu drwy gyfrif cyfryngau cymdeithasol TPAS Cymru.

Ni fydd unrhyw un o'ch ymatebion ar gael i'ch landlord na TPAS Cymru. Os ydych yn cytuno i gymryd rhan, ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru a bydd unrhyw fanylion adnabod y gallech ddewis eu darparu yn yr arolwg yn cael eu dileu cyn dadansoddi'r data.

Nid yw'r ymchwil hon yn gofyn am gasglu unrhyw ddata personol gennych. Ni fydd eich cyfeiriad IP a'ch e-bost yn cael eu casglu drwy gwblhau'r arolwg.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol.

Os byddwch yn dewis rhoi data personol fel rhan o'r ymchwil, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod chi o'r ymatebion y byddwch yn eu darparu, na chysylltu eich hunaniaeth â'r rhain. Os byddwch yn cyflwyno ymholiad neu gŵyn ac yn rhoi data personol sy'n gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd ond yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol ac wedi hynny bydd yn ei ddileu o ddata'r ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio eich data?

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth wrth gasglu'r data hyn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau a rôl graidd Llywodraeth Cymru.



Mae'ch cyfranogiad yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gall weithredu arni am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir data personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru ar weinyddion diogel, ac ar gyfer y prosiect hwn mae ffolder wedi cael ei greu sy'n caniatáu mynediad i'r tîm ymchwil uniongyrchol yn unig. Bydd unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis ei ddarparu yn eich ymatebion yn cael eu storio yn y ffolder gyfyngedig hon. Ni fydd yr ymchwilwyr yn darparu unrhyw wybodaeth bersonol wrth adrodd ar y canfyddiadau i'r tîm polisi.

Wrth gynnal arolygon, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhaglen feddalwedd arolwg o'r enw Smart Survey. Rydym wedi sicrhau bod Smart Survey yn cydymffurfio â GDPR ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd (e.e. caiff yr holl ddata ei brosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd).

Adroddir ar yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hon mewn fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy mewn atebion agored yn cael ei dileu. Bydd y Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad, a gellir cyhoeddi hwn ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio er mwyn adnabod unrhyw gyfranogwyr unigol.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd unrhyw ddata personol na fydd eisoes wedi'u ddileu yn ystod y dadansoddiad yn cael eu dileu gan y tîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy dri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu fel rhan o'r ymchwil hon. Yn benodol, mae gennych yr hawl:

- i gael gfael ar gopi o'ch data eich hun
- i ofyn inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113.

Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data sy'n cael eu darparu fel rhan o'r astudiaeth hon neu os hoffech arfer eich hawliau drwy ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â'r swyddog canlynol:

Enw: Katy Addison

Cyfeiriad e-bost: katy.addison@llyw.cymru

Rhif ffôn: 03000 256292

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru drwy'r dulliau canlynol:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru.